OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2103 (Cy. 229)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 10 MYA Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd) 2011

Wedi'i wneud	*25 Awst 2011*
Yn dod i rym	*5 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (A4076) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 10 MYA Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 5 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd a elwir Victoria Road a Hamilton Terrace yn Aberdaugleddau yn Sir

Benfro sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Pont Victoria tua'r dwyrain hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Sandhurst Road, sef pellter o 932 metr.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbydau esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio unrhyw gerbyd, heblaw cerbydau esempt, mewn modd sy'n peri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

6.Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am chwe mis ar y mwyaf.

G MORGAN

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 25 Awst 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.